COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 20 MAWRTH 2018, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | RM Granville | G Thomas | E Venables |
| SR Vidal | KJ Watts | CA Webster | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DG Howells, RM James, B Sedgebeer a/ac SG Smith

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |

131. ETHOL Y CADEIRYDD

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (PGD) wrth y Pwyllgor nad oedd y Cadeirydd, y Cyng. RM James yn gallu dod i'r cyfarfod. Gwahoddodd y PGD enwebiadau i gynrychiolydd o'r pwyllgor gael ei benodi'r Cadeirydd ar y cyfarfod. Enwebwyd ac eiliwyd y Cyng. K Watts fel y Cadeirydd

PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd K Watts yn Gadeirydd y pwyllgor ar gyfer y cyfarfod.

132. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

133. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 17/01/2018 fel rhai gwir a chywir.

134. DIWEDDARIADAU AR WASANAETH A PHERFFORMIAD

Cyflwynodd y PGD adroddiad yn diweddaru'r pwyllgor ar berfformiad y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer Aelodau Etholedig.

Atgyfeirio Aelodau
Yna siaradodd y Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd trwy'r data perfformiad atgyfeiriadau aelodau. Amlinellodd ganran yr atgyfeiriadau a gwblhawyd gan gyfarwyddiaethau o fewn 10 a 20 diwrnod a dywedodd fod mwy na 50% o atgyfeiriadau ar gyfartaledd wedi'u cwblhau o fewn 10 diwrnod a bod mwy na 75% wedi'u cwblhau o fewn 20 diwrnod. Ychwanegodd fod cynnydd o 40% wedi bo yn nifer yr atgyfeiriadau wedi'i wneud y llynedd o'u cymharu i'r nifer o atgyfeiriadau ar gyfartaledd wedi'u derbyn ar gyfer pob un o'r 4 blynedd ddiwethaf.

Cytunodd yr Aelodau y dylai canran cwblhau 20 diwrnod fod yn uwch a dywedon nhw y dylai'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau gael eu cwblhau o fewn y cyfnod o 20 diwrnod. Dylid

hefyd annog cyfarwyddiaethau i gyflawni canran uwch o atgyfeiriadau sy'n cael eu cwblhau o fewn 10 diwrnod.

Credodd y Pwyllgor ei fod yn ddangosydd cadarnhaol fod mwy o atgyfeiriadau'n cael eu gwneud. Dywedodd y PGD fod sawl aelod hefyd yn adrodd eu hatgyfeiriadau i sefydliadau eraill yn ogystal â'r System Atgyfeirio Aelodau a arweiniodd at rywfaint o ddyblu.

Rhoddwyd y PGD wybod i'r aelodau am argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i godi eu pryderon ynghylch gweithredu a defnyddio'r system atgyfeirio aelodau at y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd â'r cynllun i adolygu'r system Atgyfeirio Aelodau a nodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Y bwriad oedd adolygu'r holl agweddau ar y system Atgyfeirio Aelodau a phrosesu i wella effeithlonrwydd ac effeithioldeb.

Lleisiodd yr aelodau eu pryderon am gyflymder ac effeithlonrwydd sawl un o'r atgyfeiriadau gan eu bod yn cael eu cylchredeg i ganolbwynt gwasanaeth cyn cael eu hanfon i'r adran berthnasol. Awgrymwyd y dylid atgyfeirio'n uniongyrchol i'r person perthnasol fel y gellir ymdrin â'r mater yn gyflym gan osgoi'r 'canolwr'. Roedd yr aelodau hefyd yn awyddus blaenoriaethu atgyfeiriadau i alluogi'r rheiny sy'n cael eu hystyried yn rhai brys i gael eu prosesu'n gyflym. Rhoddodd y PGD wybod i'r aelodau y byddai eu sylwadau'n cael eu cynnwys yn rhan o'r adolygiad.

Dywedodd y PGD wrth yr aelodau am gyflwyniad y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) a sut y byddai'r rheoliadau newydd hyn yn effeithio ar Atgyfeiriadau Aelodau. Un o'r goblygiadau fyddai na fyddai modd cadw data personol ar ôl iddo stopio bod yn berthnasol a byddai angen ei ddileu. Ychwanegodd mai rheolwyr data yw'r aelodau ac wrth ddelio gyda data am unrhyw unigolyn fod ganddynt gyfrifoldeb llwyr dros y data hwnnw, a bod angen iddynt weithredu'n unol â hynny. Cytunodd yr aelodau gynnal hyfforddiant ar y RhDDC ym mis Mehefin 2018 i sicrhau eu bod yn deall y rheoliadau newydd yn llwyr.

<u>Datblygu Aelodau</u>

Rhoddodd y PGD wybod i'r aelodau am weithgareddau datblygu aelodau oedd wedi'u cynnal ers Hydref 2017 a nifer yr aelodau a gymerodd ran yn y digwyddiadau hyn. Nodwyd, er bod llawer wedi mynychu sawl un o'r gweithgareddau, fod llawer wedi gweld canran presenoldeb o 50%. Rhoddwyd hefyd y lefel gwblhau ar gyfer modiwlau e-ddysgu. Dywedodd aelod nad yw llawer o gynghorwyr wedi cwblhau'r modiwlau e-ddysgu gan eu bod yn ei gweld yn anodd eu llywio ar y system. Dywedodd y PGD y bydd yn gweithio gyda'r tîm TGCh a'r tîm Dysgu a Datblygu i wneud gwelliannau tra hefyd yn annog cynghorwyr i gwblhau'r modiwlau nad ydynt wedi'u cwblhau eto.

<u>Gwe-ddarlledu</u>

Dywedodd y PGD wrth y Pwyllgor am nifer y cyfarfodydd wedi'u gwe-ddarlledu a'r ystadegau gweld wedi'u cyflawni.

<u>Fforwm TGCh yr Aelodau</u>

Eglurodd y PGD yr aelodau ychwanegol wedi'u henwebu i Fforwm TGCh yr Aelodau a dywedodd fod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 23 Ebrill 2018.

Rhwydwaith Swyddogion Cymorth Aelodau (SCA)
Rhoddwyd y PGD wybod i'r pwyllgor am y pynciau ac ystyried yng nghyfarfod y Rhwydwaith SCA a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2018 oedd yn cynnwys:

- Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru).
- Canllawiau ar gyfer cynghorwyr wedi'u paratoi gan y CLILC ar gam-drin ar-lein a diogelwch personol.
- Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gwahoddir y rhwydwaith i rannu unrhyw gynlluniau ar gyfer canllawiau i aelodau ar y ddeddfwriaeth newydd.
- Trafodaeth gydag aelodau'r Panel Adolygiadau Annibynnol yn ystyried rôl cynghorau cymuned a thref.
- Cymorth i Aelodau a datblygu ymgynghorwyr a hyfforddwyr
- Diweddariad ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Yn dilyn dadl fer PENDERFYNODD Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd:-

1. Fod y system Atgyfeirio Aelodau'n cael ei hadolygu yn ystod y 6 mis nesaf. Byddai'r adolygiad yn ystyried y materion canlynol:
    - A oes angen system Atgyfeirio Aelodau?
    - Pa bynciau ddylai gael eu cyflwyno fel Atgyfeiriad Aelod
    - Sut mae Awdurdodau Lleol eraill yn rheoli ei Hatgyfeiriadau Aelodau
    - Blaenoriaeth atgyfeiriadau Brys/Pwysig/Arferol
    - Yr amserlenni ar gyfer ymateb i atgyfeiriadau wedi'u gwneud
    - Helaethu'r broses pan na chaiff ymatebion eu derbyn o fewn yr amserlenni cytunedig
    - Anawsterau a rhwystrau ar gyfer swyddogion sy'n delio gydag Atgyfeiriadau Aelodau
    - Ife OTRS sydd y pecyn meddalwedd mwyaf addas ar gyfer Atgyferiadau Aelodau?
    - A ellir defnyddio meddalwedd gwaith achos plaid gwleidyddol?
    - Rhoi hyfforddiant i Aelodau Etholedig ar ddefnyddio Atgyfeiriadau Aelodau ac OTRS
    - Dadansoddi Atgyfeiriadau Aelodau i nodi tueddiadau neu bynciau allweddol
    - Ymateb yn addas i ymholiadau ac argymhellion craffu
    - Cyfrinachedd atgyfeiriadau aelodau
    - Creu Dangosyddion Perfformiad addas
    - Sut mae aelodau'n cefnogi eu ACau/ASau a Chynghorau Tref o ran atgyfeiriadau

2. Caiff y pynciau canlynol eu trafod mewn sesiynau datblygu aelodau wedi'u hailadrodd yn y misoedd wedi'u nodi isod:
    - Adroddiadau Blynyddol - Ebrill 2018
    - Adolygiadau Datblygu Personol - Mai 2018
    - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol - Mehefin 2018
    - Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth/ADY/NASC - Gorffennaf 2018

3. Caiff y pynciau canlynol eu hychwanegu at y rhestr o eitemau i'w hystyried yn y dyfodol
    - App Modern.gov (fersiwn gyfyngedig)
    - Stori Jodie – On Track
    - Diweddariad ar Drais Domestig (i gynnwys gwybodaeth am Calan a thrais domestig tuag at ddynion

4. Briffiau cyn cyfarfodydd y Cyngor:
   Cytunodd y pwyllgor fod y briffiau cyn cyfarfodydd y Cyngor canlynol yn cael eu trefnu:
   - 28 Mawrth 18 V2C – Wedi'i gadarnhau
   - 25 Ebrill 2018 Consortiwm Canolbarth y De – Wedi'i gadarnhau
   - 13 Mehefin 2018 Campws Bryncethin – i'w gadarnhau
   - 11 Gorffennaf 2018 Gofalwyr/Gofalwyr Ifanc – i'w gadarnhau

5. Hyfforddiant y Pwyllgor Rheoli Datblygu
   Ystyriwyd bod y pynciau datblygu aelodau canlynol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn ddefnyddiol iawn i bob aelod a ddylai gael ei annog i fynd i:
   - 24 Mai 2018 Cytundebau cyfreithiol Adran 106 – hanfodion a chyfyngiadau
   - 04 Gorffennaf 2018 Cenin Renewables yn Stormy Down – ymweliad â Cenin Renewables i weld tyrbin gwynt, paneli solar, labiau sment, ffatri dreulio anaerobig, banc batris.
6. Modiwlau Eddysgu
   Roedd y Pwyllgor o blaid yr argymhelliad bod y pynciau canlynol yn cael eu cwblhau gan yr holl Aelodau erbyn 01 Mehefin 2018:
   - Deddf Diogelu Data
   - Diogelu Plant ac Oedolion
   - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
   - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

   Bydd y PGD yn cylchredeg dolen i'r modiwlau ac o bosibl gynnwys hyn mewn digwyddiad Round Robin

7. Fforwm TGCh Aelodau Etholedig

Roedd y Pwyllgor o blaid yr argymhelliad bod cyfarfod cyntaf fforwm TGCh yr Aelodau'n cael ei gynnal ym mis Ebrill a bod dyddiadau'r cyfarfod cyntaf yn cael eu cylchredeg fel eu bod yn gyfleus i'r rhan fwyaf o aelodau. Bydd y cyfarfod cyntaf yn ystyried amseroedd y cyfarfodydd dilynol.

135. ADOLYGU YMARFEROLDEB MODERN.GOV

Amlinellodd PGD ymarferoldeb y system Modern.Gov, y mae Tîm y Gwasanaethau Democrataidd wrthi'n ei defnyddio, a'r agweddau ychwanegol y mae bwriad i'w cyflwyno.

Esboniodd y defnyddiwyd Modern.Gov i hwyluso llawer o'r wybodaeth am Aelodau Etholedig a'u rolau. Diweddarodd y system eu proffiliau, eu cofnodion presenoldeb, eu datganiadau a gwybodaeth arall. Dywedodd wrth y pwyllgor fod staff â'r bwriad o gynyddu'r defnydd o'r nodwedd hon trwy ychwanegu cofnodion pleidleisio i'w proffil i alluogi'r cyhoedd i ddeall yn well benderfyniadau wedi'u gwneud gan y cynghorwyr.

Esboniodd hefyd nodwedd 'tanysgrifio i ddiweddariadau' y wefan. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i ofyn am ddiweddariadau ar bynciau o'u dewis a fydd yn cael eu cylchredeg iddynt yn awtomataidd.

Gofynnodd aelod a yw nifer y weithiau y mae rhywun yn edrych ar ei broffil yn cael ei gofnodi. Esboniodd y PGD fod y nodwedd hon ar gael o'r cyfnod iddo ddechrau ei swydd.

Esboniodd aelod arall nad yw hi'n gwybod bod llawer o'r nodweddion hyn yn bodoli gan obeithio y gellir cynnal cwrs gloywi ar nodweddion Modern.Gov.

Mae'r PGD yn cydnabod y cynigion hynny ac y byddai'n cynnwys y pwnc hwn mewn cyfarfodydd Fforwm TGCh yr Aelodau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad

136. BLAENRAGLEN WAITH PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynodd y PGD adroddiad a roddodd wybod i'r Pwyllgor am eitemau arfaethedig i'w hystyried yn ei gyfarfodydd dilynol yn rhan o Flaenraglen Waith Dreiglol yn y dyfodol, a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Esboniodd hefyd fod y calendr cyfarfodydd ar gyfer 2019/20 wedi'i gwblhau gyda dyddiadau dros dro'r holl gyfarfodydd gan gynnwys rhai Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd. Byddai'r calendr yn cael ei anfon allan yn fuan i gael cymeradwyaeth aelodau yn rhan o'r adroddiadau ar gyfer cyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai.

Dywedodd aelod fod llawer ohonynt wedi bod yn cael trafferth mewngofnodi i rannau gwahanol o'r wefan, yn ogystal â Modern.Gov, o'r dyfeisiau cludadwy. Awgrymodd y PGD fod y problemau hyn wedi'u cynnwys yn Fforwm TGCh yr Aelodau a gobeithio byddai hyn o fudd mynd i'r afael â phryderon TGCh yr holl aelodau.

Byddai hyfforddiant ar Modern.Gov hefyd yn cael ei ychwanegu at y Flaenraglen Waith yn ogystal ag unrhyw hyfforddiant cyfredol ar fentrau eraill.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r flaenraglen waith ar yr amod bod eitem ar yr Adolygiad Atgyfeiriadau Aelodau sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 25 Hyd 2018 yn cael ei chynnwys.

137. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 17:59